**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y BIL TROSEDDU A PHLISMONA**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Troseddu a Phlismona (“y Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 2025. Gellir cael copi o'r Bil yn: Bil Troseddu a Phlismona 2025 - GOV.UK

3. Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn y Swyddfa Gartref ynghylch y Bil, ac mae hyn wedi cynnwys rhannu amlinelliad o'r mesurau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil.

4. Mae'r Bil yn cynnwys 15 rhan ac yn 332 tudalen o hyd ac mae'n ymdrin ag ystod eang o bynciau.

## Amcanion Polisi

*5.* Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw:

- mynd i'r afael â'r epidemig o drais difrifol, cam-drin plant yn rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched sy'n fefl ar ein cymdeithas

- diogelu'r cyhoedd a chanol ein trefi rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau manwerthu a dwyn o siopau

- rhoi i'r heddlu ac eraill y pwerau y mae arnynt eu hangen i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a therfysgaeth

- ailennyn hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach

## Crynodeb o’r Bil

6. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

[1] Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, nodwch ein bod yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel “Senedd Cymru” y tro cyntaf, ac wedyn fel “y Senedd”, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

7. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn ymdrin â'r canlynol:

   a) Mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol: cyflwyno gorchmynion parch, cyflwyno trosedd benodol o ymosod ar weithiwr manwerthu, cynyddu'r difrifoldeb a'r gosb i gymryd camau llymach ar gyfer dwyn gwerth isel o siopau a throseddau â chyllyll
   b) Rhoi mwy o bwerau i'r heddlu: ehangu'r pwerau i brofi cyffuriau adeg arestio, rhoi pwerau newydd ar gyfer mynediad, chwilio ac atafaelu, rhoi mwy o fynediad i'r heddlu i gronfa ddata DVLA, gwahardd ffermydd SIM a dyfeisiau electronig a ddefnyddir yn achos dwyn cerbydau
   c) Gwella hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach: rhoi'r hawl i brif swyddogion heddlu apelio yn erbyn canlyniad byrddau camymddygiad, rhoi'r hawl i swyddogion arfau tanio sy'n destun achos troseddol fod yn ddienw.
   d) Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched: cryfhau rheoli troseddwyr a gwella'r gofynion hysbysu yn achos troseddwyr rhyw cofrestredig, rhoi'r hawl i ddioddefwyr stelcian wybod pwy yw'r troseddwr, cyflwyno trosedd newydd sef gweinyddu sylwedd niweidiol (‘sbeicio’)
   e) Diogelu plant ac oedolion agored i niwed: cyflwyno dyletswydd newydd i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol, creu troseddau newydd o gogio a cham-fanteisio troseddol yn erbyn plant, cyflwyno troseddau newydd sy'n gysylltiedig â chymryd delweddau personol heb gydsyniad, gwneud ymddygiad meithrin perthynas amhriodol yn ffactor gwaethygu statudol
   f) Gwella pwerau gwrthderfysgaeth: cyflwyno gorchymyn dargyfeirio ieuenctid newydd, gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth terfysgaeth a argymhellir gan Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

8. Mae fy swyddogion wedi cael ymgysylltiad cynnar, cyson a chadarnhaol â swyddogion yn y Swyddfa Gartref wrth i'r Bil ddatblygu, gan gynnwys rhannu fersiwn ddrafft o'r Bil.

9. Ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona, Tân ac Atal Troseddu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ar 6 Rhagfyr 2024 yn tynnu sylw at fesurau amrywiol a fyddai'n gymwys i Gymru a mesurau i'w cymhwyso i Gymru a oedd wedi'u cynnwys ym Mil Cyfiawnder Troseddol neu Fil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol y sesiwn ddiwethaf.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

*Cymal 1 - Gorchmynion Parch*

10. Mae cymal 1 yn mewnosod darpariaethau yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae'n creu Rhan A1 newydd, Gorchmynion Parch. Byddai hyn yn rhoi pŵer i'r llys wneud gorchmynion parch yn erbyn person 18 oed neu hŷn ar gais “awdurdod perthnasol”. Ymddengys mai diben y cymal hwn yw addasu'r mesurau presennol i atal ac amharu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

11. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau datganoledig Cymru a Gweinidogion Cymru (mae cymal B1 yn diffinio “awdurdod perthnasol” at ddibenion A1 ac mae'n cynnwys: awdurdodau lleol, Corff Adnoddau Naturiol Cymru, Gweinidogion Cymru sy'n arfer swyddogaethau rheoli diogelwch, neu berson sy'n arfer swyddogaethau rheoli diogelwch ar gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru neu o dan drefniadau a wneir rhwng Gweinidogion Cymru a'r person hwnnw) ac sydd, o ganlyniad, yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae angen cydsyniad y Senedd, felly.

<u>Cymal 2, Atodlen 1 – Gwaharddebau ieuenctid a gwaharddebau tai</u>

12. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Ran 1 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i ddarparu ar gyfer gwaharddebau ieuenctid a gwaharddebau tai. Bydd awdurdodau perthnasol yn gallu gwneud cais am waharddeb ieuenctid ar gyfer cyflawnwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol rhwng 10 a 17 oed. Bydd awdurdodau perthnasol yn gallu gwneud cais am waharddeb tai ar gyfer cyflawnwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol 18 oed neu hŷn sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai sy'n achosi niwsans neu aflonyddwch. Mae paragraff 15 o Atodlen 1 yn mewnosod adran 13A yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad risg ac mae paragraff 16 o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori cyn i geisiadau o'r fath gael eu gwneud. Bydd hyn yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig. Gan fod y ddarpariaeth yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru, bernir ei bod hi ac Atodlen 1 yn rhoi sylw i faterion datganoledig a bod angen cydsyniad y Senedd.

<u>Cymal 5, Atodlen 2 – Cau mangreoedd gan ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig</u>

13. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i alluogi darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig i gau mangreoedd sy'n gysylltiedig â niwsans ac anhrefn. Wrth wneud hynny mae gofynion ymgynghori mewn perthynas â'r heddlu a'r awdurdodau lleol.

14. I'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau Cymreig datganoledig, mae angen cydsyniad y Senedd.

<u>Cymal 6, Atodlen 3 - Adolygiadau o ymatebion i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol</u>

15. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae Cymal 6 ac Atodlen 3 gyda'i gilydd yn creu dyletswydd i gyrff plismona lleol hyrwyddo ymwybyddiaeth o adolygiadau achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal heddlu a darparu llwybr i ddioddefwyr gwestiynu penderfyniadau. Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n deillio codi o'r adolygiad ystyried unrhyw argymhellion a wneir iddynt yn yr adolygiad. Mae darpariaethau newydd hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddatgelu gwybodaeth. Mae personau o'r fath yn debygol o gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig.

16. I'r graddau y mae'r cymal hwn ac Atodlen 3 yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau datganoledig Cymru. Mae angen cydsyniad y Senedd.

<u>Cymal 7 – Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Ysgrifennydd Gwladol</u>

17. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan awdurdodau perthnasol penodol.

18. Byddai'r rheoliadau y gellir eu gwneud wedyn yn ei gwneud yn ei gwneud yn ofynnol i "gyrff perthnasol" (adran 105(3) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014) ddarparu gwybodaeth etc.  Er mai pwnc a gedwir yn ôl yw hwn yn fras o safbwynt cymhwysedd deddfwriaethol, byddai cyrff perthnasol at ddibenion rheoliadau yn debygol o gynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig. Bydd y ddarpariaeth felly yn rhoi sylw i faterion datganoledig a bydd arni angen cydsyniad y Senedd.

<u>Cymal 14 – Ymosod ar weithiwr manwerthu</u>

19. Mae'r cymal hwn yn creu trosedd newydd o ymosod ar weithiwr manwerthu yn y gwaith. Nid yw'n defnyddio unrhyw gymalau cadw na chyfyngiadau yn Neddf Llywodraeth Cymru ac mae'n drosedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

<u>Cymalau 74 a 75 – Hybu neu hwyluso hunan-niweidio difrifol</u>

20. Mae cymal 74 yn creu trosedd o wneud gweithred yn fwriadol sy'n gallu hybu neu hwyluso hunan-niwed difrifol person arall. Mae'n diddymu'r drosedd yn adran 184 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ac yn ei disodli â throsedd ehangach a gwahanol.

21. Mae'r cymalau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben atal a chosbi ymddygiad sy'n hybu neu'n hwyluso hunan-niweidio difrifol. Mae'r diben mwy cyffredinol hwnnw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y

Senedd ac felly mae angen cydsyniad, i'r graddau y mae'r drosedd yn rhychwantu Cymru ac yn gymwys yng Nghymru.

22. Mae cymal 75 sy'n gwneud darpariaeth atodol i gymal 75 yn creu dyletswydd ar y llysoedd i wneud gorchymyn ymddygiad troseddol mewn amgylchiadau penodol a bernir bod arno angen cydsyniad y Senedd i'r graddau y mae'n atodol i'r dibenion datganoledig yng nghymal 74.

Cymal 90 – Cofebau rhyfel

23. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â throsedd o ddringo ar gofeb ryfel.

24. Er ei fod yn ymddangos yn y Rhan o'r Bil sy'n ymwneud â threfn gyhoeddus, nid yw'r drosedd ei hun wedi'i chyfyngu i gyd-destun protest. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nodir nad oes unrhyw un o'r cofebau rhyfel a bennir ar hyn o bryd yn Atodlen 11 wedi'u lleoli yng Nghymru, ond mae'r cymal yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ychwanegu at y rhestr hon mewn rheoliadau.

Cymalau 127 – 129 – Cytundebau rhannu data mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith ryngwladol (iLEAP)

25. Mae cymal 127 yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith (iLEAP). Yn ogystal â rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru (a ddiffinnir yng nghymal 128 fel awdurdod cenedlaethol priodol) ar gyfer darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r cymal yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol y gellid eu defnyddio i ddeddfu ar faterion datganoledig.

26. Mae'r cymal hwn yn darparu i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

27. Diffinnir yr awdurdod cenedlaethol priodol yng nghymal 128 fel yr Ysgrifennydd Gwladol, er bod Gweinidogion Cymru yn cael eu diffinio hefyd fel awdurdod cenedlaethol priodol yng nghymal 128(4) mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan gymal 127 nad yw ond yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os byddai wedi'i chynnwys mewn unrhyw Ddeddf gan y Senedd.

28. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chytundebau rhyngwladol i rannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith a ddiffinnir yng nghymal 127 (5) fel "the prevention, investigation, detection or prosecution of criminal offences or the execution of criminal penalties, including the safeguarding against, and the prevention of, threats to public security".

29. Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i greu neu addasu troseddau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl (yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ym mharagraff 4 yn Atodlen 7B) ac i wneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldeb dros erlyn troseddau datganoledig megis ym meysydd troseddau amgylcheddol neu i fywyd gwyllt.

30. Mae paragraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dargadw cysylltiadau rhyngwladol. Er hynny, mae paragraff 10(3)(a) o Atodlen 7A yn darparu nad yw parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl. Wrth roi rhwymedigaeth ryngwladol ar waith sy'n ymwneud â phwnc nas cedwir yn ôl, byddai hyn o fewn cymhwysedd y Senedd.

31. Mae angen cydsyniad y Senedd i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, gan gynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol a rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru.

<u>Cymal 132 - Rheoliadau</u>

32. Mae'r cymal hwn yn nodi'r pŵer gwneud rheoliadau canlyniadol ac atodol a'r weithdrefn seneddol sy'n berthnasol i reoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae angen LCM i'r graddau y mae'n ymwneud â phŵer gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru o dan gymal 127.

<u>Cymal 133 - Rheoliadau a wneir gan Weinidogion yr Alban, un o adrannau Gogledd Iwerddon neu Weinidogion Cymru</u>

33. Mae'r cymal hwn yn nodi'r weithdrefn seneddol sy'n gymwys i bwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru neu'r Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon. Mewn perthynas â Chymru, mae hyn yn ymwneud â'r weithdrefn gwneud rheoliadau ar gyfer darpariaethau iLEAP, felly mae angen LCM. Gweler Cymalau 27 - 129

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

34. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen LCM ar gyfer darpariaethau canlynol y Bil:
    - Cymalau 1, 5 a 7 ac Atodlen 2 – cryfhau pwerau yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
    - Cymal 14 – Ymosod ar weithiwr manwerthu
    - Cymalau 74 - 75 – Trosedd ehangach o hybu neu hwyluso hunan-niweidio difrifol
    - Cymalau 127 - 129 - Gweithredu cytundebau rhannu gwybodaeth ar gyfer gorfodi'r gyfraith ryngwladol.

35. Rwyf yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymalau a restrir ym mharagraff 38.

36. Er hynny, mae gwahaniaeth safbwynt mewn perthynas â'r angen am gydsyniad ar gyfer y cymalau canlynol:

- Cymal 2, Atodlen 1 – Gwaharddebau ieuenctid a gwaharddebau tai
- Cymal 6, Atodlen 3 - Adolygiadau o ymatebion i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cymal 90 – Cofebau Rhyfel
- Cymalau 132 a 133 – Rheoliadau a wneir gan Weinidogion yr Alban, un o adrannau Gogledd Iwerddon neu Weinidogion Cymru

37. Yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. O ganlyniad, yn unol â Rheol Sefydlog 29, mae angen cydsyniad y Senedd.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil Troseddu a Phlismona**

38. Yn fy marn i, mae'n briodol i'r Bil hwn wneud darpariaeth ar gyfer Cymru. Er bod llawer o'r ddarpariaeth yn rhoi sylw i faterion datganoledig, byddai llawer ohoni yn disgyn y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae darpariaeth gyfyngedig yn cael ei gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac rwyf o'r farn ei bod er budd gorau Cymru i ddarpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y Bil hwn gan y DU.

39. Mae ymgysylltu pellach yn digwydd â Llywodraeth y DU ar y cymalau iLEAP ac fe roddir diweddariad i'r Senedd maes o law.

**Goblygiadau ariannol**

40. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil hwn ar hyn o bryd.

**Casgliad**

41. Fel yr amlinellir uchod, rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU ar y darpariaethau iLEAP, a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Senedd pan fyddaf yn gallu gwneud hynny. O ran yr holl ddarpariaethau eraill yn y LCM hwn, rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**28 Mawrth 2025**